# CWLWM

**MEDI**
**2025**

Rhif 74




**Golygydd:**

**Einir Jones**

**Pris 50c**

***Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru***

***Cynnwys***

***Golygyddol***

***O Notre Dame, Paris i Notre Dame, Chartres***

***Twmbwrian***

***A Phethau Distadl y Byd...***

***Dathlu Pen-blwydd***

***Cwis: Ble?***

***Ymweliad â Glyn Nest***

***Taffi Sir Fôn***

***Bisgedi Uwd Blasus***

***Atebion y Cwis***

***Dydd Agored Glyn Nest***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***

***Cynhadledd Breswyl Senana Cymru 2025***

# Golygyddol

Pan oeddwn i yn blentyn y y 50au byddai Sale of Work bob amser yn ein capel ni ar ddiwedd yr Hydref. Fe gai pob math o bethau eu paratoi gan y merched ar gyfer y digwyddiad. Capiau lliwgar ar gyfer cadw tebot yn gynnes, jam, picls o amrywiol fathau, cyflaith (gweler rysait yn y Golofn Gwcan!) Hen lyfrau ac offer cegin. Dillad plant bach wedi eu gwau yn bastel-ofalus ac un stondin flynyddol yn llawn hen hetiau mi gofiaf. Ond yr hyn sydd wedi ei serio yn fy nghof i yw'r Bran Tub. Safai yn rheolaidd wrth y drws blaen, hen dwb golchi dillad - y math a San Ffaganeiddiwyd erbyn heddiw – a phapur Nadolig coch destlus yn ei orchuddio. Ynddo roedd pentwr o Ruddion (Bran) ac yn y pentwr hwnnw roedd tomen fawr o amryfal anhegion wedi ei lapio yn addas ar gyfer bachgen neu ferch. Ceid pob math o bethau o fewn y cyfrinachau papur yma, llyfrau nodiadau bychain, bybls, chwiban, pecyn o bensiliau lliwio, cribau, clips gwallt - llawer o'r stwff o Woolworth neu siop tegins haf lleol wedi eu gwerthu'n rhad wedi i'r fisitors ymadael. Bran Tub! 6 cheiniog y tro a dyna syrpreis a godai'r galon ar noson oer pan fyddai'r dydd yn tynnu ato.

Rhyw deimlo felly fyddwn i bob Ebrill a Gorffennaf hefyd wrth agor ebyst ac amlenni stwff ar gyfer Cwlwm. Mi ges i lot o bethau diddorol dros y blynyddoedd, amrywiaeth helaeth wedi eu darparu'n dda a'u lapio gan eraill. Mae'n wir cofiwch mod i wedi cael sterics sawl tro yn meddwl na fyddai digon o ddeunydd, ond wir i chi, fe ddaeth bob tro o rywle a diolch i chi i gyd a gyfrannodd mor hael at lwyddiant blynyddol y Cwlwm Dwbwl. Bellach daeth yr amser i mi i dynnu'r papur coch oddi ar y twb a dychwelyd y Rhuddion i'r sach briodol gan ddiolch i bawb a gyfrannodd dros y blynyddoedd ac i John am gysodi pethau yn ddiflino ac am holl gymorth Bonni yn y Swyddfa. Ond yn bennaf mi hoffwn ddiolch i Dduw am ei holl help. Mae hen emyn nad ydyn ni'n ei ganu bellach mwya'r piti, Thomas Jones, Dinbych piau fe ac mae'n siarad o brofiad.

Yr Arglwydd ar fy nhaith
A'm daliodd lawer gwaith
Yn nyfnder loes dan faich a chroes
A gorthrymderau maith.
Yn un heb nerth ar greigiau serth
Ces fyw drwy werth y gwaed,
A'r gras a fu yn rhad o'm tu
Sydd eto'n gry' i fwrw'r llu
Gelynion dan fy nhraed.

Pwy bynnag fydd yn golygu'r Cwlwm nesaf rwy'n dymuno help amhrisiadwy Duw iddynt pan fyddant yn agor amlenni ac ebyst y *Bran Tub* ac rwy'n gobeithio y bydd llwyth da ohonynt yn syrpreis hyfryd yn y Rhuddion.

Fel y tystia Thomas Jones a fi, mae rhyfeddodau a gwyrthiau diddorol ar gael i'w cyhoeddi dim ond chwilio, dewis a gafael.

**Yn Eisiau**

**Golygydd i Cwlwm**

**Beth Amdani?**

**Os oes gennych ddiddordeb,**

**cysylltwch â Bonni yn y Swyddfa!**

***Gol***

*S'dim iws i ni gerdded i bregethu os nad yw'n cerddediad YN bregeth.*

*Ffransis o Assisi*

*Y pellter mwyaf rhwng y broblem a'r ateb*
*yw'r pellter rhwng eich penliniau chi a'r llawr.*

*Charles Stanley*

*Mae ofn yn dweud "Beth os?".*
*Mae Ffydd yn dweud "Hyd yn oed os…."*

*Anad.*

*Ffydd yw camu i fyny i'r gris cyntaf*
*er na allwch weld y grisiau i gyd.*

*Martin Luther King*


# O Notre Dame, Paris
# i Notre Dame, Chartres

## Ann Finch (Iorath, Cwmgïedd)

Pererin wyf mewn anial dir,' meddai'r hen Williams, Pantycelyn am ei daith ddaearol, taith i 'dŷ ei dad,' ac ers canrifoedd bellach, mae'r arfer o bererindota wedi bod yn boblogaidd. Roedd Oes Aur pererindota i'r Cristion yn y 12$^{fed}$ Ganrif ac fe anfarwolodd Geoffrey Chaucer yr arfer o bererindota yn ei gerdd enwog 'The Canterbury Tales.' Ond os mai nod Williams oedd cyrraedd 'tŷ ei dad,' cyrchfan mwy daearol oedd nod y pererinion cynharaf, man a gyfrifid yn bwysig yn y Beibl, yn bwysig ym mywyd yr Iesu neu'r seintiau.

Y tri lle mwyaf enwog yn hanes pereindota'r Cristnogion cynnar oedd Jerwsalem, Rhufain a Santiago de Compostela yn Sbaen. Wel, roedd fy mrawd a'i wraig wedi bod ar bererindod i Santiago ac wrth gwrs, fe ysbrydolon nhw ni i ymuno â nhw ar bererindod i Rufain y llynedd. O ganlyniad i'r daith honno, penderfynon ni y byddai'n hyfryd teithio eto eleni. Yr un oedd ar y gweill oedd o Notre Dame, Paris i Notre Dame, Chartres. Yn anffodus, ni wireddwyd y daith fach honno ar droed ond fe lwyddon ni i ymweld â'r ddau le gyda chymorth trafnidiaeth gyhoeddus!


Cyrhaeddon ni Paris ar yr 28$^{ain}$ o Ebrill a'n bwriad ni oedd mynd i Notre Dame, Paris y diwrnod canlynol. Ond, y siom oedd nad oedden ni wedi llwyddo cael slot amser i ymweld â thu mewn yr Eglwys gan fod y lle mor brysur yr adeg yma o'r flwyddyn. Yn gynnar bore'r 29$^{ain}$ ces decst gan fy mrawd yn dweud wrtha i am frysio, roedd wedi mynd i mewn i wefan yr Eglwys yn blygeiniol ac wedi llwyddo cael lle am 9.45. Doedd dim amser i gael brecwast a bant â ni ar y Metro i ganol dinas Paris mewn da bryd ar gyfer ein hymweliad. Dyma lun ohonom y tu allan i'r Eglwys.



Roedden ni mor awyddus i fynd i mewn i Notre Dame, fe fentron ni gael mynediad yn gynnar ac yn wir i chi, cawsom fynd i mewn yn syth gan ei bod yn weddol dawel bryd hynny. Nawr, cystal i mi ddweud wrthoch mod i wedi ymweld â Notre Dame o'r blaen, tua hanner canrif yn ôl, fel myfyrwraig ifanc, dlawd! Yr argraff ges i bryd hynny oedd fy mod i'n camu i ogof dywyll, di-liw. Hollol wahanol oedd y profiad eleni. Wedi tân 2019 a'r atgyweirio ar gyfer yr ail agor yn 2024, roedd y lle wedi ei drawsnewid. Roedd y lle'n olau i gyd a'r pileri tal, goleuliw, tyner, yn arwain eich llygaid fry tua'r nefoedd a'r ffenestri gwydr, amryliw'n disgleirio yng ngolau'r haul.



Un o ryfeddodau'r Eglwys yw ei ffenestri rhos. Roedd rhain yn darlunio digwyddiadau ym mywyd yr Iesu, y proffwydi a'r seintiau. Ffenest y gogledd a welir isod a Mair ar ei gorsedd yn dal y baban Iesu yn y canol. Roedden nhw'n rhyfeddol ar ôl yr adnewyddu a'r glanhau mawr.



Un o’r nodweddion fwynheuais i fwyaf oedd côr yr eglwys lle roedd paneli pren ar y ddwy ochr a’r rheiny wedi’u cerfio a’u paentio’n lliwgar iawn. Roedden nhw’n darlunio hanes bywyd yr Iesu o Fethlehem i Galfaria.
Roedd hyn yn ein hatgoffa pa mor bwysig oedd yr eglwysi yma i ddarlunio’r Beibl mewn cyfnod pan roedd pobl yn anllythrennog. Isod ceir Iesu’n marchogaeth i Jerwsalem, y swper olaf a Iesu’n golchi traed y disgyblion.

.



Adeiladwyd Notre Dame, rhwng y 12fed ganrif a’r 14 ac erbyn heddiw, mae’n un o safleoedd UNESCO.
Wrth gwrs, mae’r tu mewn yn rhyfeddol oherwydd pensaernïaeth Gothig yr eglwys. Mae’r ‘*flying buttresses*’ ar y tu allan yn rhoi cadernid i’r muriau ac yn cynnal eu pwysau, felly, gellid adeiladu’r muriau’n uwch a gosod ffenestri tal, gosgeiddig yn y muriau i wneud yr adeilad yn fwy golau.
Er mwyn esbonio’n fyr, mae’r ‘*flying buttresses*’ ar y tu allan fel gwreiddiau’n ymestyn ac yn angori’r adeilad tal wrth sylfeini solet, ar ran ucha’r adeilad. O ganlyniad, gellid adeiladu muriau uwch na fyddai’n dymchwel dan bwysau’r to.
Mae’n wir yn werth ei gweld! Mae creiriau o’r Croeshoelio yno ond wedi’u cadw’n ddiogel, y goron ddrain, darn o bren y groes, a hoelen o’r groes. Roedd y creiriau yma’n rheswm arall dros bererindota, wrth gwrs. Mae’r eglwys wedi goroesi rhyfeloedd, rhyfel cartref, dau ryfel byd a thân 2019 ac mae’n sefyll yn ei holl ogoniant hyd heddiw. Os taw bwriad yr eglwys oedd dwyn dyn i weld gogoniant Duw, mae’n llwyddo i wneud hynny yn bendant.

.Gadawon ni wedyn a throi i mewn i gaffi yr ochr draw i'r Seine i gael cwpanaid o de a chacen fach. Gyda llaw, wrth gerdded allan o'r eglwys a thrafod ein hangen am 'ddishgled o de,' dyma'r llais yma'n dod o gadair wrth ochr yr ale, 'Ie, byddai dished o de yn braf.' Gŵr o sir Gâr oedd e. Roedd e a'i wraig wedi ymgartrefu ym Mharis ers iddo ymddeol. Mae'r byd yn fach!!
Wel, roedd yn Fai'r 1[af] cyn aethon ni i eglwys gadeiriol Chartres. Codi'n fore i ddal y trên. Cyn hir fe sylweddolon ni fod Mai'r 1af yn ddiwrnod gŵyl yn Ffrainc oedd yn golygu bod y siopau ar gau ac roedd y strydoedd yn anarferol dawel. Un peth arall diddorol am y diwrnod oedd fod pobl yn gwisgo sbrigyn o lili'r dyffrynnoedd. Cafodd cywreinrwydd y gorau arna i a gofynnais i un fenyw pam roedd yn gwneud hyn a dwedodd ei fod yn arwydd o ddyfodiad y gwanwyn ac yn dymuno hapusrwydd a gobaith am y flwyddyn i ddod.
Dal y trên a hwnnw'n 'double decker' ac eistedd lan llofft. Roedd yn siwrne dros awr o hyd ac yn daith drwy'r wlad a dim tyle na bryn i'w weld! Buasai wedi bob yn berffaith mynd yno ar droed!! Cyrraedd a cherdded i'r eglwys. Dyma ni tu allan i'r eglwys hon.



Caiff yr eglwys hon yn ei hystyried yn gampwaith gan UNESCO, yn uchafbwynt celf Gothig Ffrengig. Mae eglwys wedi bod ar y safle yma ers y 4edd Ganrif, heb fawr newid i'r pensaernïaeth na'r ffenestri lliw ers y 13. Mae'r tu allan mor ddiddorol â'r tu mewn. Cawsom offer clyweled i'n harwain o gwmpas yr eglwys y tu mewn a'r Gothig oedd y '*flying buttresses*' i gynnal y muriau uchel a'r ffenestri lliw tal.
Un peth arall oedd yn ddiddorol cyn mynd i mewn i'r eglwys oedd y cerfluniau bendigedig o gwmpas y drysau. Isod, ceir portread o ail ddyfodiad yr Iesu.

.
.





Wrth gamu i'r eglwys, unwaith eto, yr hyn sy'n eich taro yw uchder yr adeilad a hefyd y ffenestri lliw rhyfeddol.



Mae 167 o ffenestri lliw yn eglwys Chartres i gyd. Yn y dair ffenest uchod, mae ffenest Jesse ar y dde yn dangos coeden deulu'r Iesu. Ar y chwith, mae dioddefaint yr Iesu ac yn y canol, mae hanes bywyd yr Iesu. Y rheswm, fel y nodais eisioes, oedd cyfleu storïau'r Beibl yn lliwgar a thrawiadol i bobl anllythrennog, neu bobl nad oedd â modd i gael gafael ar Feibl.

Mae pererinion yn teithio i Chartres am un rheswm arall – mae crair go arbennig yno, sef y tiwnig y credir i Mair wisgo pan roddodd enedigaeth i'r baban Iesu y Sancta Camisa. Mae i'w weld yno mewn câs gwydr.

I grynhoi a chloi, roedd y daith i'r ddwy eglwys wedi bod yn brofiad rhyfeddol. Beth ddysgais i o'r profiadau o ymweld â'r ddwy eglwys fawreddog yma? Wel, fe welais fod y ddwy eglwys wedi gweld gorau a gwaethaf dyn; wedi gweld coroni, dathlu a moli, ond hefyd wedi gweld rhyfel, rhyfel cartref a thânau enbyd. Mae'r ddwy wedi goroesi'r cwbwl, wedi codi fel 'phoenix' o'r llwch ac maen nhw yno heddiw i ni eu mwynhau ac i ddwyn clod i'r Crëwr Mawr.

# Twmbwrian
# Tyrchio

Wrth dwmbwrian mewn llwyth mawr o hen bapurau ac erthyglau oedd wedi cael eu cadw mewn ffeil er y dyddiau pan oedd John yn golygu'r Seren gynt fe ddes i o hyd i ddarn o bapur a dau lun. (Mae'n dda ambell waith bod rhaid ail-bapuro a phaentio!). Yr enw ddaliodd fy llygad oedd Star ac fe ganodd hwnnw gloch yn fy mhen gan mod i wedi addo rhoi cyhoediad i mewn yn y Cwlwm yghylch y cyrddau arbennig fydd yno ym Medi. Fe rois i un ym Mai hefyd os cofiwch a nodyn bach hanesyddol a diddorol iawn yn gefndir iddo am sut y cafodd y lle ei enw yn wreiddiol. Nid cwrdd Cymanfa fydd hwnnw sydd i'w gynnal mis hwn wrth gwrs ond roeddwn i wedi gweld yr enw yma yn ymddangos mor anaml mewn print nes iddo dynnu fy sylw. Cymanfa Bedyddwyr Penfro yw'r teitl ar y papur bach ac wedyn y geiriau 'Trwy Lygad y Camera'.

Roedd y Gymanfa yn 2004 wedi cael ei chynnal yn yr hen gapel bach diddorol a hanesyddol yma ar y rhiw serth a'r tro cas lle bydd cyrddau'r Medi hwn. (Wn i ddim ble parciodd y cynrychiolwyr ond yn siŵr i chi bod cae cyfagos wedi ei agor. Wn i ddim chwaith lle cafodd pobl fwyd achos does dim neuadd yn Star am a wn i ond mae'n siŵr bod trefniadau da wedi eu gwneud a digonedd o borthiant yn ôl dull arferol Penfro.)

Bryd hwnnw roedd Oedfa'r Brodyr yn y Gymanfa ac fe ddaeth y Parchedig Ganon Dewi Tomos yno i annerch. Does gen i ddim llun ohono fe ond hen foi ardderchog oedd Dewi ac fe ddes i'w adnabod yn ddiweddarach pan symudodd ef a'i wraig hyfryd yma i fyw yn Rhydaman. Siaradwr tra diddorol a gwybodus oedd hefyd ac rwy'n siŵr i'r gwrandawyr gael gwledd. Does gen i ddim syniad am gynnwys ei araith ond mi wn i'r Oedfa gael ei llywyddu gan y cyn-lywydd, Emrys Jones. Efallai y byddai rhai ohonoch yn cofio'r enw neu'r wyneb a hyd yn oed y llais.

Gwraig o Uganda, Mrs Pat Crook, oedd yn annerch Oedfa'r Senana ac mae llun gen i fan yma. Ar gefndir o gaeau glas ac awyr gymylog uwch y gorwel a chornel o dalcen y capel mae pedair o sir Benfro a'r wraig o Affrica yn sefyll ar y tro cas siwr o fod. Bonni Davies sydd ar y chwith – cefais air â hi ac roedd hi'n cofio lliw y ffrog heb iddi weld y llun hyd yn oed.



.

Yno hefyd mae Brenda Miles, Llywydd 04/05, Doris Davies ac Anna Williams, cyn-lywyddion y Gymanfa.

Etholwyd Margaret Davies - mam Mererid Hopwood - o Harmoni Pencaer yn Is-Lywydd am 2004-2005 ac mae llun da iawn ohoni gyda dau ŵr hynaws – yng nghapel Star y tro yma a thu mewn mae'r tri yn sefyll yn y sedd fawr. Yn y canol saif y Parchedig Carl Williams oedd yn weinidog Hermon bryd hwnnw os cofiai. Ef oedd Ysgrifennydd y Gymanfa hefyd. Fe ddaeth ef a Rita ei wraig i'r cyffiniau yma hefyd wedi iddo ymddeol ac ymsefydlu yn Llandybie, nepell oddi wrth ysgol dau o fy wyrion. Byddwn yn arfer ei weld yn garddio ar y rhiw wrth fynd i mofyn y plant a chael sgwrs gydag ef a Rita. Drws nesaf iddo yn y llun fe saif y gŵr hynaws hwnnw Clive Jackson, trysorydd Hermon bryd hwnnw. Coffa da amdano ef hefyd ac am y cyfnod pan oedd John yn weinidog yn y Dinas ac yn ymwneud llawer gyda Osborne a Joan Thomas, gweinidog Hermon gynt.

Da yw cael hyd i ambell i beth roedd rhywun wedi ei ddodi yn ddiogel unwaith. Da cael agor ffeil y cof hefyd a darganfod cyrddau a phrynhawniau dan awyr Penfro a gweld bod y Beibl yn y lle canolog ac ar y pulpud – yn union lle dylai fod.



*Llun 1*



*Llun 2*

# A Phethau Distadl y Byd...

## Arvonia Young, Aberystyth

Yn yr oedfa ar Radio Cymru fore Sul ddechrau wythnos y Sioe Fawr yn Llanelwedd fe bregethodd y Parchedig Aled Davies ar bwnc sydd bob amser yn berthnasol i ffermwyr, sef tir. Fe gododd ei destun o Lyfr Numeri, pennod 27 ac adnodau 1-11 sydd yn adrodd hanes pump o ferched yr oedd eu tad wedi marw heb etifedd gwrywaidd i'w olynu ac na allent etifeddu'r tir roedd eu tad yn berchen arno.

Yn ôl y gyfraith gafodd Moses gan Dduw, mab oedd i etifeddu'r tir a chan nad oedd brawd gan y merched ni fyddai hawl ganddynt o gwbwl arno Doedd hyn ddim yn deg yng ngolwg y merched ac fe fuon nhw'n ddigon dewr i fynd at Moses i bledio eu hachos. Gallech feddwl y byddai Moses wedi eu hanfon i ffwrdd gan gondemnio eu hyfdra a gwrthod eu cais ond yn lle hynny mynd at yr Arglwydd i ofyn am ei arweiniad wnaeth Moses. Er syndod, mae'n siŵr, i'r arweinwyr oedd gyda Moses, yr ateb a gafodd oedd bod y merched i gael eu dymuniad a chael etifeddu tir eu tad. Dyna oedd dewrder yn achos cyfiawnder!

Wrth wrando ar neges Aled daeth i'm cof i mi ddarllen erthygl yn 'Catalyst', un o gylchgronnau'r BMS yn dweud bod sawl enghraifft yn y Beibl o ferched oedd yn fodlon herio'r drefn a hynny i geisio tegwch a chyfiawnder. Mae un enghraifft o hynny yn Llyfr Ecsodus penodau 1 a 2. Bu tueddiad i ganolbwyntio'r cyfan ar Moses a oedd yn mynd i gael ei ddefnyddio i arwain ei bobl o gaethiwed yn yr Aifft i wlad yn llifeirio o laeth a mêl. Fe ddaeth y babi oedd yn yr hesg yn arwr ac yn arweinydd ond arhoswch – sut y digwyddodd hyn?

Yr oedd yr Hebreaid wedi cynyddu mewn nifer ac am ei fod yn ofni y bydden nhw'n cynyddu cymaint nes dod yn ddigon cryf i helpu gelynion yr Aifft, o bosib, rhoddodd y Ffaro, brenin yr Aifft, orchymyn i'r bydwragedd i ladd pob bachgen Hebreig ar ei enedigaeth. Gwrthod cydymffurio â'r gorchymyn a wnaeth y bydwragedd a gwneud rhyw esgus nad oedd yn bosib iddyn nhw ufuddhau.

Doedd mam Moses ddim yn fodlon ufuddhau ’chwaith ac fe guddiodd hi Moses gartref am dri mis ac wedi hynny ei roi mewn basged frwyn a’i osod yn y tyfiant ar lan yr afon. Tebyg ei bod hi ar ben ei thennyn yn ofni y byddai rhywun yn clywed ei lais o’i gadw gartref. Roedd Miriam, ei chwaer, yn cadw llygad arno. Daeth merch y Ffaro i ymdrochi yn y Nîl a phan welodd y baban bach a’i glywed yn crio dywedodd wrth ei morwynion mai un o blant yr Hebreid oedd e. Ar hynny dyma Miriam yn dod o’i chuddfan a chynnig mofyn un o ferched yr Hebreaid i fagu’r plentyn i’r dywysoges. Yn amlwg fe gytunodd merch Ffaro a chafodd mam Moses y cais i’w fagu ar y fron ac y byddai’n cael ei thalu am hynny. Dyma engreifftiau o wragedd a ddefnyddiwyd gan Dduw am eu dewrder yn achos cyfiawnder – y ddwy fydwraig, Jochebed mam Moses, Miriam ei chwaer a merch y Ffaro. Fe anwybyddodd hi orchymyn ei thad am iddi weld y babi a theimlo trueni drosto. Gwyddai mai anghyfiawn oedd gorchymyn ei thad ac fe fentrodd fynd yn ei erbyn.

Yn wir mae rhyw hiwmor yn yr hanes pan feddyliwn am y merched hyn, oedd yno ac yn ôl pob tebyg yn cael eu hanwybyddu, ond mae nhw’n llwyddo i rwystro pennaeth mor nerthol a pheryglus. Tu ôl i’r cyfan gallwn weld llaw Duw. Yn aml iawn mae’n defnyddio’r anhebygol a’r di-nod a’r distadl.

Llwyddodd y merched gafodd etifeddu tir eu tad a llwyddodd pob un yn stori geni Moses i newid hanes eu pobl yn yr amser tywyll yma. Boed i ninnau gael y dewrder a’r craffter, yr arweiniad a’r ffydd i gael ein defnyddio o blaid y Gwir yn ein gwlad ni Heddiw, a hynny yn enw ein Harglwydd Iesu Grist a ddioddefodd angau’r groes er ein mwyn.

*Yr unig beth sydd ei angen ar ddrygioni i lwyddo*
*yw i ddigon o ddynion da wneud dim by*d.

*Edmund Burke*

*Gweddïwch fel petae popeth yn dibynnu ar Dduw.*
*Gweithiwch fel petae popeth yn dibynnu arnoch chi.*

*Awstin Sant*

# Dathlu Pen-blwydd

## Rosemarie Eynon

Cafwyd dydd o lawen chwedl yn y Tabernacl Pontarddulais ar y 27ain o Orffennaf eleni. Roedd Teifryn Rees yn dathhlu ei ben-blwydd yn nawdeg. Rydyn ni yn y Tabernacl yn ffodus iawn ohono, yn ddiacon, yn organydd ac yn dal i ganu mewn oedfaon arbennig yn ystod y flwyddyn.

Y Parchedig Jill Hayley Harries oedd yn gwasanaethu oedfa o Gymundeb gyda Gloria Lloyd (Ebeneser, Rhydaman ac yn ffrind da i’r Tab) wrth yr organ.

Yn ystod y cyfarfod canodd Teifryn yr emyn ‘Sicrwydd Bendigaid’ a phawb yn ymuno yn y cytgan. Ar ôl yr oedfa cafwyd parti i dri-deg i ddathlu. Roedd y festri wedi ei haddurno gan chwiorydd y Tab ac roedd gwledd i fwyta.

Cafwyd cyfarchion niferus, rhai wedi ysgrifennu penillion i ddathlu’r achlysur. Delyth Williams o’r Tab, Heddwyn Jones, ffrind seiclo Teifryn o Bontiets, y Parch Denzil John, Caerdydd (perthynas) ac wrth gwrs gan y Prifardd Einir Jones Rhydaman – ffrind agos i ni i gyd yn y Tab. Cafwyd dymuniadau da gan y Parchedig Vincent Watkins ar ran y Gymanfa (Gorllewin Morgannwg) ac fel y dywedodd “Scarcely believe!” bod Teifryn wedi cyrraedd y garreg filltir yma.

Siaradodd Teifryn a diolchodd i bawb am gyfeillgarwch dros y blynyddoedd a soniodd am rai o’r digwyddiadau a luniodd ei fywyd. Diolchodd Rosemarie i bawb a dymunodd fendith y Nef ar Teifryn ynghyd ag iechyd am flynyddoedd lawer i ddod. Da oedd bod yno!






# Ble?

1. Ble yn union y byddai Ioan Fedyddiwr yn bedyddio yn yr Iorddonen?
2. I ble symudodd Iesu i fyw pan adawodd Nasareth?
3. Ble roedd Elias yn eistedd ac yn gofyn am farw gan ei fod mor isel ei ysbryd?
4. Ble clywodd Elias y llef ddistaw fain?
5. Ble'r anfonwyd Jona i bregethu?
6. O ble roedd Pedr a'i gyfeillion yn dod yn wreiddiol?
7. Doedd yr Apostol Paul ddim o Jeriwsalem. Ble roedd ei gartref?
8. Lle treuliodd Pedr gyfnod yn y carchar pan oedd Herod am ei ddienyddio?
9. Ble roedd cartref Barnabas?
10. Roedd aelodau'r eglwys yma yn dlawd, dall a noeth meddai Ioan. Ble roedd hi?
11. Ble roedd Nathanael wedi bod yn eistedd cyn iddo gwrdd â'r Iesu?
12. O ble roedd perchnogion yr asyn gariodd Iesu ar Sul y Blodau yn dod?
13. Mae Marc (a dim ond fe) yn dweud ble yn union roedd yr asyn wedi ei glymu? Ble?
14. Ble roedd Herod dros y Pasg pan groeshoeliwyd Iesu?
15. At ba afonig yr anfonodd Duw y proffwyd Elias i gael ei fwydo gan gigfrain?
16. Ble carcharwyd Ioan yn llyfr y Datguddiad?
17. Ble roedd Paul yn aros pan oedd yn ddall yn Damascus?
18. I ble roedd yr Eunuch o Ethiopia ar ei ffordd?
19. Ble prynodd Jeremeia ddarn o dir dan amgylchiadau gwael?
20. Ble roedd Dorcas y wraig dda yn byw?

# Ymweliad â Glyn Nest

## Rosemarie Eynon

Brynhawn Sul Gorffenaf 13eg aeth rhai o aelodau'r Tabernacl Pontardulais ar ymweliad â Glyn Nest. Fel arfer cafwyd croeso cynnes, eleni gan y Parchedig Sian Elin, Caplan y Cartref. Ar ôl y weddi agoriadol trosglwyddodd hi yr awenau i aelodau'r Tabernacl.

Diolchodd Rosemarie Eynon, Ysgrifennydd y Tabernacl am y croeso a chanwyd emyn oedd yn adnabyddus i bawb, 'Nid wy'n gofyn bywyd moethus'. Hyfryd iawn oedd gweld pawb y ymuno.

Cafwyd darlleniad yn y Gymraeg gan Teifryn Rees ac yn y Saesneg gan Meriel Davies. Offrymwyd y weddi gan Meryl Henry. Gan fod rhai o'r deiliaid heb fedru'r Gymraeg roedd y gwasanaeth yn ddwyieithog. Cafwyd unawd gan Teifryn 'Beautiful Words of Life' ac eto, pawb yn ymuno yn y gytgan. Delyth Williams a Meryl Henry oedd yn gyfrifol am ddarllen barddoniaeth addas. Delyth hefyd oedd yn cyfeilio gydol y pnawn.



Gan fod Teifryn yn dathlu pen-blwydd arbennig ddiwedd y mis ymunodd pawb i ganu 'Pen-blwydd Hapus'.

Yn wir roedd yn oedfa hapus a bendithiol. Daeth y pnawn i ben gydag Ann Davies yn cyhoeddi'r emyn olaf, 'O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu'.

Diolchodd y Parchg Sian Elin i'r aelodau cyn ymuno gyda nhw dros baned a danteithion melys a blasus.

*Yn y llun (uchod) gwelir Beti Thomas (Beti Fach) yn ymuno gydag aelodau'r Tabernacl a'r Parchedig Sian Elin.*

# Taffi Sir Fôn

Fe gefais y rysait hon gan fy mam flynyddoedd yn ôl – wedi iddi hi ei chael gan ei chwaer yng nghyfraith o'r Talwrn. Mae'n hawdd, yn flasus ac yn rhad ac yn ffefryn ar gyfer y Nadolig yn tŷ ni. (OK, Medi yw hi ond fe fydd yr Hen Ŵyl yma mewn chwinc!)

Sosban fawr dda (gwell rhy fawr na rhy fach oherwydd bydd y taffi wrth ferwi yn codi i fyny yn y sosban) ac iddi waelod trwchus a thun sgwar neu hirsgwar 6x8 modfedd wedi ei iro'n dda yn barod gyda menyn. Metel sydd orau, mae'n oeri ac fe allwch daro'r taffi yn haws ynddo.

Hefyd bydd angen cwpanaid o ddŵr oer a llwy arnoch i brofi pan mor galed yw'r taffi. (Byddai'r plant yn leinio i fyny ar gyfer y darn yma a phawb fel cywion adar yn aros am siâr!)

* Llond lwy fwrdd o Finigr
* Dwy Lond Llwy Fwrdd o ddŵr oer
* Bloc 8 owns o Fenyn
* 10 owns o Siwgwr
* 2 Lond Llwy Fwrdd o Driog Melyn (Syrup)

Toddwch y cyfan yn araf dros wres isel yn y sosban a phan fydd y cyfan yn hylif trowch y gwres i fyny'n ofalus nes ei fod yn berwi'n dawel. Cofiwch ei droi yn ddibaid. Fel yr aiff yr amser ymlaen fe fydd lliw y stwff yn newid o felyn i frown golau. Lliw taffi! Amynedd piau hi. Gwyliwch rhag i chi or-ferwi ac mae'n well gollwng taffi oddi ar y llwy bren i'r dŵr i'w brofi'n gyson o hyn ymlaen. Pan mae modd rowlio'r taffi yn y gwpan ddŵr rhwng y bys a bawd nes ei fod fel pêl feddal mae'n barod. Dylai'r Taffi fod yn ffrwtian erbyn hyn.

Dodwch waelod y sosban mewn dŵr oer yn gyflym a'i chodi allan i stopio'r taffi rhag mynd yn rhy galed.

Tywalltwch y cyfan i'r tun hirsgwar a gadael iddo oeri. Yna defnyddiwch garn gyllell drom i'w dorri'n ddarnau. Cadwch mewn tun a chlawr arno – ond rwy'n eich rhubuddio, fydd e ddim yn para'n hir os gŵyr pobl ble mae'r tun!

## Bisgedi Uwd Blasus

Eto mae'r rysait hon o Sir Fôn ac fe ddes ar ei thraws pan oeddwn yn sortio hen lyfrau nodiadau a rysetiau coginio yn ddiweddar. Gan fy ffrind ysgol, Catherine, gynt o'r Llidiart Capel Coch ac yna o Ros Meirch y cefais hi ac rwy'n ei chynnwys er cof amdani. Mae hi'n dal gennyf yn ei llawysgrifen hi ar ôl y maith flynyddoedd.

- 8 owns o Farjarin/Menyn
- 6 owns o Siwgwr
- 4 owns Blawd Codi
- Pinsiad o Halen
- 10 owns o Uwd
- 2 lond llwy dda o Fanila Essence

Cymysgu'r Marjarin/Menyn a'i guro nes ei fod yn lliw hufen. Ychwanegu'r blawd a'r halen a'r uwd a'r Fanila. Troi allan a'i rowlio tua chwarter modfedd o drwch a'i dorri'n gylchoedd. Coginio am tua chwarter awr ar wres 180 nes eu bod yn euraidd.

Hyfryd, a hawdd.

# Atebion Cwis Ble?

1. Ainon ger Salim. Ioan 3, 23
2. Capernaum meddai Mathew 4,13
3. Dan Ferywen yn yr anialwch tu hwnt i Beersheba. 1 Bren': 19,4
4. Mewn ogof ar Fynydd Sinai wedi i'r gwynt a'r tân a'r ddaeargryn basio. 1 Brenhinoedd 19, 12 ymlaen.
5. Ninife, y Ddinas Fawr, prifddinas Assyria. Jona 1,2
6. Bethsaida ger y llyn. Hwn oedd y Fishing Quarter. Ioan 1, 44
7. Tarsus, yn Twrci heddiw, ar arfordir Mor y Canoldir. Actau 9,11
8. Yn Jeriwsalem, roedd Herod wedi ei ddal ac am ei ladd. Actau 12, 4
9. Yng Nghyprys – Cyprus. Lefiad o'r teulu Offeiriadol ydoedd meddai Actau 4, 36
10. Laodicea yn Asia Leiaf – Twrci heddiw. Datguddiad 3,14 ymlaen
11. Dan y ffigysbren meddai Ioan 1,48
12. Pentref cyfagos i Jeriwsalem – Bethania neu Bethphage. Marc 11, 1 ymlaen.
13. Wrth ddrws y tŷ ar y stryd. Marc 11,4
14. Yn Jeriwsalem dros yr Ŵyl. Dyna pryd y daeth yn ffrindiau gyda Peilat. Luc 23,6
15. Yr afonig Cherith yn Gilead.1 Brenhinoedd 17,2
16. Patmos. Un o wersyll-garcharau'r Rhufeiniaid yn yr Aegean. Datguddiad 1, 9
17. Yn Nhŷ Jiwdas ar yr Heol a elwir Uniawn. Actau 9,11
18. I lys ei frenhines yn Ethiopia, Candace oedd ei henw. Actau 9, 27-28
19. Anathoth, tref ei fagwraeth fel offeiriad pan oedd y Babiloniaid wedi goresgyn y tir. Jeremeia 33, 9.
20. Joppa (Jaffa heddiw) Actau 9, 36

# Dydd Agored Glyn Nest 2025

## Sian Elin Thomas



Unwaith eto eleni fe gawsom y cyfle i ddod at ein gilydd i ddathlu ac i godi arian tuag at ein Cartref Gofal.

Mae Glyn Nest yn 55 mlwydd oed eleni, ac wedi gweld cryn dipyn o newid, ond un peth sydd yn aros yn gyson o hyd yw'r gefnogaeth wrth y gymuned.

Daeth llawer ynghyd i Gastellnewydd Emlyn ar brynhawn o Haf. Roedd yna lu o stondinau yn cynnwys stondin gacennau, nwyddau o'r ardd a nwyddau sydd wedi cael eu creu can y staff a'r deiliad.

Braf oedd clywed cyfarchion oddi wrth Y Parchedig Deb Stammers, Llywydd Mudiad y Chwiorydd, Y Parchedig Rob Nicholls, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru ac wrth gwrs llywyddion anrhydeddus y dydd, Mr a Mrs Vivian a Bonni Davies, Cwm Gwaun.  Mae'r ddau wedi bod yn gefnogol tu hwnt i'r Cartref ar hyd y blynyddoedd a hyfryd oedd clywed oddi wrth y ddau wrth iddyn nhw agor y dydd agored.

Diolchodd y ddau i'r staff a'r gwahanol bwyllgorau ar hyd y blynyddoedd am bopeth mae nhw wedi gyfrannu i sicrhau llwyddiant parhaol y Cartref arbennig yma.

Diolchir hefyd i'r Parchedig Irfon Roberts a'i wraig Mrs Mair Roberts am eu gwaith di-flino, ynghyd â'r pwyllgor tŷ am sicrhau llwyddiant y dydd.



# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

Hedfanodd y misoedd heibio fel y gwynt a dyma ni nawr i mewn ym mis Medi a minnau'n cael cyfle arall i ysgrifennu pwt yng ngholofnau Cwlwm er mwyn i chwiorydd Cymru gael dal i fyny â'r hyn sy'n digwydd o fewn i'r Mudiad. Diolch am y cyfle, diolch i bawb a gyfrannodd i'r rhifyn, a diolch arbennig iawn i'r golygydd, Einir Jones.

**Cynhadledd Flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru:** Daeth yn arferiad i Fudiad y Chwiorydd gyflwyno adroddiad yng nghynhadledd flynyddol yr Undeb a braint yn wir oedd cael gwneud hynny eleni yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain. Llywiwyd y cyflwyniad yn fedrus gan Deb Stammers, llywydd cyfredol y Mudiad. Cyflwynwyd adroddiad diddorol gan Eleri Lloyd Jones a Gret Evans am eu hymweliad â Lisboa i Gynhadledd Chwiorydd Ewrop 7yn Hydref 2024. Cafwyd diweddariad byr gan Sian Elin Thomas o sefyllfa gyfredol cartref Glyn Nest; ac i ddiweddu, estynnodd Gret groeso cynnes i bawb i Gapel Star, sir Benfro i Gyfarfodydd Blynyddol y Mudiad.

**Y Pwyllgor Cyffredinol Blynyddol**: Buan iawn y daeth mis Gorffennaf a'r Pwyllgor Cyffredinol pryd y cafwyd cyfle i glywed am weithgarwch y Mudiad o fewn y Cymanfaoedd. Trefn y Mudiad yw bod y Cymanfaoedd yn dewis cynrychiolwyr o'u plith i fynychu'r cyfarfod blynyddol am gyfnod o dair blynedd. Amharwyd ar y drefn yn ystod y pandemig, ond gydag ail-sefydlu'r drefn honno eleni, cafwyd cyfle i groesawu rhai wynebau newydd i ymuno yn y rhengoedd. Bydd aelodau'r Pwyllgor Cyffredinol wedyn yn ethol rhai o'u plith i fod yn aelodau ar y Pwyllgor Gwaith ac fe fyddwn yn croesawu'r rheini yn y pwyllgor nesaf ym mis Mawrth.

**Is-lywydd 2025-2026**: Swyddogaeth y Pwyllgor Cyffredinol hefyd yw cymeradwyo swyddogion y Mudiad, gyda'r is-lywydd yn eu plith. Tro Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion oedd enwebu is-lywydd ar gyfer 2025-2026, ac er iddi ddisgyn i'w rhan i ddewis is-lywydd i Senana Cymru yn ogystal, daeth newyddion da o lawenydd mawr! Cyflwynwyd enw'r chwaer Lis Puw, Llanuwchllyn, a derbyniwyd yr enw'n unfrydol gan y Pwyllgor Cyffredinol. Bydd yn

camu'n swyddogol i'r swydd yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Star. Rhoddwyd rhybudd hefyd mai tro Gorllewin Morgannwg fyddai dewis is-lywydd ar gyfer 2026-27.

**Ysgrifenyddiaeth a Thrysoryddiaeth Y Mudiad**: Gyda'r ysgrifennydd yn awyddus i gamu lawr yn 2025 ar ôl 20 mlynedd, daeth newyddion da iddi o leiaf fod un cam yn agosach. Cytunodd Donna George o Gymanfa Penfro i gynorthwyo gyda'r gwaith. Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth oedd bod ei henw'n cael ei argymell i'r Pwyllgor Cyffredinol a chael ei phenodi'n is-ysgrifennydd am y tro ac yn cael ei chyflwyno'n swyddogol i bawb yn y Cyfarfod Blynyddol yn Star, lle mae'n aelod. Cytunodd y trysorydd Hazel Williams Jones barhau yn y swydd am dair blynedd arall.

**Cyfansoddiad y Mudiad** - Daeth argymhelliad ymlaen llaw i'r Pwyllor Cyffredinol y dylid ail-edrych ar Gyfansoddiad y Mudiad. Diweddarwyd y cyfansoddiad presennol nôl yn 1989. Argymhellwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn edrych arno, ei ddiwygio a dod nôl â drafft i'r Pwyllgor Cyffredinol y flwyddyn nesaf.

**Glyn Nest**: Gorchwyl bleserus olaf ond un Llywydd y Mudiad bob blwyddyn yw cael dwyn cyfarchion ar ran y Mudiad yn y Dydd Agored blynyddol. Bu'n fraint arbennig i'r Parchg Deb Stammers gael gwneud hynny eleni wrth i'r Cartref edrych ymlaen at ddathlu ei ben-blwydd yn 55 oed. Bu'n fraint dwbwl i'r Mudiad eleni, gan i ysgrifennydd y Mudiad a'i gŵr gael eu gwahodd i agor y digwyddiad. Hyfryd iawn oedd gweld tyrfa dda wedi dod ynghyd unwaith eto o bob rhan o Gymru i gefnogi'r Dydd Agored fel teyrnged i'r blynyddoedd o wasanaeth, ymdrech a dyfalbarhad sydd wedi mynd mewn i sefydlu'r cartref ac i lwyddiant y cartref ar hyd y blynyddoedd.

**Cyfarfod Blynyddol y Mudiad:** Erbyn i'r rhifyn yma o Cwlwm fod yn eich dwylo, fe fydd y Cyfarfod Blynyddol yn Eglwys Star wedi bod a'r chwaer Gret Evans wedi esgyn i'r llywyddiaeth. Estynnir pob dymuniad da a phob rhwyddineb iddi wrth lenwi'r swydd ac wrth iddi arwain y chwiorydd yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddiedig y Byd:** Ym mis Tachwedd fe gaiff chwiorydd Cymru'r cyfle i gyd-weddïo gyda chwiorydd Bedyddiedig dros y byd wrth ymuno yn y Dydd Gweddi ar y dydd Llun cyntaf. Diolchir yn fawr i Elen Landsdown a Nia Llwyd o Eglwys Emaus Bangor am fod yn gyfrifol am gyfieithu ac addasu'r oedfa eleni ar y thema "Byw'r Newyddion Da". Mae'n garreg filltir go arbennig eleni – 75 mlynedd ers sefydlu Dydd Gweddi

Chwiorydd Bedyddwyr y Byd. Yng nghanol yr holl heriau sy'n wynebu'r byd, mae'n fwy pwysig fyth ein bod yn dod at ein gilydd i weddïo yn ein cartrefi, ein heglwysi ac mewn cymunedau ledled y byd.

**Deunydd Gwau a Gwnïo:** Da yw dweud bod ein chwiorydd ar draws Cynru gyfan yn parhau i wau a gwnïo a llawer iawn o ddeunydd wedi dod i law eto eleni. Daliwch ati ferched i helpu'r llai ffodus a diolch o galon i bob un ohonoch!

**Cwlwm:** Diolchwyd i Einir Jones, Golygydd Cwlwm, ar ddechrau'r adroddiad a dyma gau pen y mwdwl wrth ddiolch o galon iddi unwaith eto. Cyhoeddodd Einir yng nghyfarfod Blynyddol llynedd y byddai am ddod â'r swydd olygyddol i ben ym mis Medi 2025. Llenwodd y swydd yn anrhydeddus iawn oddi ar rhifyn 53 a ddaeth allan ym Mai 2015. Bydd ei chyfnod yn dod i ben gyda rhifyn 74, sef 21 rhifyn yn ddiweddarach. Cyn hynny bu Helen Davies yn olygydd am bum mlynedd, gan fod yn gyfrifol am ddeg rhifyn. Mae'r Mudiad yn ddiolchgar iawn i bobl fel hyn sy'n barod i ddefnyddio eu doniau er lles y deyrnas. Diolch, diolch, diolch!

Dilyn yn ôl traed eraill fu hanes y ddwy wrth reswm gan i rifyn cyntaf Cwlwm ymddangos yn ystod Gaeaf 1988 ar ddwy ochr tudalen A4 am bris o 5c a'i alw'n rhifyn rhagbrofol. Parhaodd Rhifynnau 1 a 2 ar ffurf tebyg yn Ionawr a Mehefin 1989. Y golygydd cyntaf oedd y ddiweddar Mary Williams, Bangor, ac yn ei chartref hi y byddai'n cael ei argraffu am y bum mlynedd cyntaf. Argraffwyd Cwlwm ar ei ffurf bresennol yn 1991 gyda Sarah Scott yn gyfrifol am yr argraffu a gyda'r pris yn parhau yn 5c. Erbyn hyn mae'n 50c (bargen), Swyddfa'r Undeb fydd yn eu hargraffu a chyn hynny swyddfa Ysgol Y Preseli.

Bu pedair golygydd wrth y gwaith rhwng 1988 a 2004: Mary Williams o 1988 hyd 1993; Rita Williams Abergwaun o 1994-1996; Cathryn Williams, Porthaethwy o 1996-2001; a Miss Mai Edwards, Castellnedd o 2001-2004. Yn dilyn Mai Edwards, ym Medi 2004, cymerodd Mrs Margaret Matthews, ysgrifennydd y Mudiad at yr awenau ond bu farw hi yn Chwefror 2005, heb gael cyfle i gydio yn y gwaith. Paratowyd rhifyn coffa i Margaret ym Mai 2005 o dan ofal Rita Williams. Yna daeth Katie Prichard, Rhoshirwaun i ofalu am un rhifyn ac ers hynny, hyd at y cydiodd Helen yn yr awenau yn 2010, Mary Williams fu'r golygydd unwaith eto.

Ers cyhoeddiad Einir llynedd, anfonwyd ebyst allan fwy nag unwaith yn erfyn am wirfoddolwyr neu enwau i gysylltu â nhw a chrybwyllwyd yr angen mewn nifer o adroddiadau. Yn anffodus, hyd

yma, ni ddaeth unrhyw un ymlaen i ddweud y bydden nhw'n barod i wneud. Mae person ar gael a allai gysodi, ond un i dderbyn y deunydd a'i olygu yw'r angen mwyaf - pe bai ond am un flwyddyn ar y tro. Beth amdani ferched?
Mae pob paragraff yn yr adroddiad yn dweud ei stori ei hun am y chwiorydd hynny sy'n barod i wasanaethu'r Arglwydd yn llawen. Gwn i sicrwydd iddynt gael bendith wrth wneud. "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, ac fe'i cei'n ôl ymhen dyddiau lawer." Gweddïwn am nerth Duw i barhau gyda'r gwaith.

# Cynhadledd Breswyl Senana Cymru



Am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd Cynhadledd breswyl Senana Cymru yng Ngholeg Trefecca lle roedd croeso mawr yn disgwyl pawb gan Wayne a Teresa Adams a'u staff.

**Nos Fawrth—Noson y Llywydd:** Dyma yw'r digwyddiad cyntaf bob blwyddyn, ac eleni, yn dilyn swper o'r radd flaenaf, cafwyd tipyn o hwyl o dan arweiniad y Llywydd Natalie Morgan gyda noson o 'Pastor Master'. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol – Sŵper Genod – am ei doniau creadigol. Daeth y noson i ben mewn epilog gan Jan Stanley.

**Dydd Mercher - Y Duw sy'n ein gweld a'n hadnabod:** Am ddiwrnod bendigedig! Wedi'r addoliad boreol gan Ann Lapage

edrychwyd, o dan arweiniad Natalie, ar Genesis 16: 1-16 gan drafod Hagar yn y grwpiau, a'r Duw sy'n ein gweld. Yna croesawyd Laura-Lee Lovering (Cydlynydd Stiwardiaeth Creadigaeth BMS), i gynnal dau sesiwn pryd cafwyd gwybod am y gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud ym Mheriw. Canolbwyntio ar Salm 139 wnaeth Natalie yn yr Oedfa Gymun fendithiol a gynhaliwyd yn yr hwyr.

**Dydd Iau - Y Duw sy'n siarad:** Wedi defosiwn boreol gan yr is-lywydd Dani Worley cafwyd cyfle i astudio a thrafod y Duw sy'n siarad, gan ganolbwyntio ar stori Lydia (Actau 16:11-15). Bendith oedd clywed am y merched oedd wedi cael dylanwad ar eu teithiau ffydd personol, am bwysigrwydd lletygarwch, a sut mae Duw yn parhau i siarad gyda'i bobl ar hyd y daith. Cyn cloi'r gynhadledd gyda defosiwn gan Eleri Lloyd Jones, cafwyd cyfle i wylio ffilm am wreiddiau mudiad y Senana.

Mae'r criw a fynychodd y digwyddiad yn ddiolchgar iawn i Goleg Trefeca am y croeso a'u lluniaeth ardderchog; i Rosa Hunt am edrych ar eu hôl am dridiau; i Laura-Lee am ei chyflwyniadau diddorol iawn; i Moira Davies am gyfeilio; i Natalie am arwain yr Astudiaethau Beiblaidd a'r Cymun; ac am y gymdeithas, y cwmni da a'r sgyrsiau bendithiol.

# WYNEB IESU



**Syllwch ar y pedwar smotyn reit yng nghanol y llun a chyfrwch i 25 yn araf. Yna edrychwch ar bapur gwyn neu wal olau. Fe welwch wyneb Iesu yn ymddangos o flaen eich llygaid.**